



Ysgol Mynydd Bychan

Polisi Codi Tâl

1. Cyflwyniad

Lluniwyd y polisi hwn yn unol â chanllawiau Cyngor Sir Caerdydd ar godi tâl a dileu.

Nod y polisi yw nodi pa dâl a godir am weithgareddau a llogi adeiladau'r ysgol, pa ddileadau a weithredir, a'r amgylchiadau pan ofynnir am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni. Lluniwyd y polisi yn unol ag Adranau 449 - 462 o Ddeddf Addysg 1996 ac Rheoliadau Addysg (Dileu Taliadau sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2011, sy'n nodi'r gyfraith ynghylch pa daliadau y gellir ac na ellir eu codi am weithgareddau mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn gyfrifol am bennu cynnwys y polisi, a'r Pennaeth i'w weithredu. Bydd unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â rhieni unigol yn cael eu hystyried ar y cyd gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol.

Mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod hawl pob disgybl i dderbyn addysg ysgol am ddim ac yn deall bod yn rhaid i weithgareddau a gynigir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ystod amser addysgu arferol fod ar gael i bob disgybl waeth beth yw gallu neu barodrwydd eu rhieni i helpu i dalu'r gost honno.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol.

2.0 Codi tâl ar ddisgyblion

Gwahardd Taliadau

Mae Corff Llywodraethol yr Ysgol yn cydnabod bod deddfwriaeth yn gwahardd taliadau am y canlynol:

- addysg a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol (gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau, llyfrau, offerynnau neu offer arall);
- mynediad i'r ysgol ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol;

- addysg a ddarperir y tu allan i oriau ysgol os yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus rhagnodedig y mae'r disgyblion yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol;
- hyfforddiant i ddisgyblion sy'n dysgu chwarae offerynnau cerdd os oes angen yr hyfforddiant fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'n rhan o addysg grefyddol;
- addysg a ddarperir ar unrhyw ymweliad sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol;
- addysg a ddarperir ar unrhyw ymweliad sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol os yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o addysg grefyddol;
- athrawon cyflenwi i gyflenwi ar gyfer yr athrawon hynny sy'n absennol o'r ysgol sy'n mynd gyda disgyblion ar ymweliad preswyl;
- cludo disgyblion cofrestredig i neu o safle'r ysgol, lle mae'n statudol i'r AALI i ddarparu cludiant;
- cludo disgyblion i adeiladau eraill lle mae'r Corff Llywodraethol neu'r ALI wedi trefnu i ddisgyblion gael eu haddysgu;
- trafnidiaeth a ddarperir mewn cysylltiad ag ymweliad addysgol sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

3. Codi tâl

Gellir codi tâl am weithgareddau eraill a elwir yn "bethau ychwanegol dewisol". Pan ddarperir ychwanegiad dewisol, gellir codi tâl am ddarparu deunydd, llyfrau offerynnau neu offer fel a ganlyn:

Gwersi Cerddoriaeth

Bydd rhieni disgyblion sy'n dymuno manteisio ar y cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant cerddoriaeth, boed yn ystod oriau ysgol neu y tu allan iddi, yn cael gwybod am y gost a byddant yn cael eu bilio gan Wasanaeth Cerdd Caerdydd. Ni chodir tâl os darperir yr hyfforddiant fel rhan o syllbus ar gyfer arholiad cyhoeddus rhagnodedig neu os yw'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gofyn amdano.

Bwrdd a Llety ar deithiau preswyl

Ni fydd y gost yn fwy na gwir gost y ddarpariaeth, ac mae angen cadarnhad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y rhiant ei fod yn fodlon talu'r ffi.

Toriadau

Bydd yr ysgol yn codi tâl am dorri a disodli o ganlyniad i golled neu iawndal a achosir yn fwriadol neu'n esgeulus gan ddisgyblion. Dylid delio â phob digwyddiad yn ôl ei deilyngdod ei hun ac yn ôl disgrisiwn yr ysgol.

Yn gyffredinol mae'r ysgol yn gallu adhawlio TAW.

4 Cyfraniadau gwirfoddol

Wrth drefnu tripiâu neu ymweliadau ysgol sydd yn cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad addysgol y plant, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i gyfrannu tuag at gost trip. Mae pob

cyfraniad yn wirfoddol. Os na dderbyniwn ddigon o gyfraniadau gwirfoddol gallwn ganslo trip. Os yw trip yn cael ei gynnal gall gynnwys plant nad yw eu rhieni wedi cyfrannu ac ni fyddwn yn trin y plant hyn yn wahanol i unrhyw blant eraill. Fe fydd yr ysgol yn cynnig talu am blant sydd ar y gofrestr prydiau am ddim i fynd ar yr ymweliad addysgiadol

Os yw rhiant eisiau i'w plentyn gymryd rhan mewn trip neu ddigwyddiad ysgol sydd o fewn cwmpas y Cwricwlwm Cenedlaethol, ond yn amharod neu'n methu gwneud cyfraniad gwirfoddol, yr ydym yn caniatáu i'r plentyn gymryd rhan lawn yn y trip neu'r gweithgarwch (ac eithrio gweithgareddau preswyl).

Mewn achosion o'r fath byddem yn gofyn i'r rhieni hysbysu'r ysgol ar y cyfle cynharaf posibl er mwyn rhoi amser i chwilio am gyllid o ffynhonnell arall. Weithiau mae'r ysgol yn talu costau ychwanegol er mwyn cefnogi'r ymweliad. Efallai y cynhelir gweithgareddau codi arian hefyd neu efallai y gofynnir i'r GRhA am arian. Mae gan rieni hawl i wybod sut y caiff pob trip ei gyllido. Mae'r ysgol yn rhoi'r wybodaeth hon pan ofynnir am hynny. Mater i'r Pennaeth yw'r holl benderfyniadau uchod.

Mae'r canlynol yn rhestr o weithgareddau ychwanegol a drefnir gan yr ysgol, sydd yn galw am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni. Gelwir y gweithgareddau hyn yn 'ychwanegiadau dewisol'. Nid yw'r rhestr yn gyflawn:

- * ymweliadau i amgueddfeydd, theatrau, safleoedd hanesyddol a.y.y.b.
- * gweithgareddau chwaraeon gyda chostau cludiant
- * gweithgareddau antur awyr agored
- * digwyddiadau cerddorol
- * ymweliad grwpiau drama i'r ysgol

Byddwn yn hysbysu'r rhieni ar y cyfle cynharaf posibl ynghylch gweithgareddau lle mae cyfraniadau gwirfoddol yn angenrheidiol

Efallai y gofynnir i rieni ddarparu rhai eitemau neilltuol fel bod eu plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau neilltuol.

Fel rheol mae ffyrdd o rannu taliadau dros gyfnod o amser, mae'r ysgol yn darparu carden cynilo i bob rhiant ar gyfer hyn.

5 Ymweliadau Preswyl

Mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau preswyl yn ystod amser ysgol. neu'n bennaf yn ystod amser ysgol, er mwyn darparu addysg sydd yn uniongyrchol berthynol i'r Cwricwlwm.

Byddwn yn codi tâl am gostau llety, bwyd ac arbenigedd y staff sy'n hyfforddi'r plant (lle bo'n briodol). Mae costau teithio ac ymweliadau eraill yn cael eu trin dan gyfraniadau gwirfoddol.

6. Gwersi Cerddoriaeth

Mae pob plentyn yn astudio cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Nid ydym yn codi tâl am hyn.

Codir tâl am hyfforddiant cerddoriaeth unigol neu grŵp os nad yw hyn yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r athrawon cerddoriaeth deithiol yn rhoi gwersi i unigolion neu i grwpiau bach. Mae Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd yn codi tâl am y gwersi hyn. Mae'r ysgol yn talu hanner costiau gwersi cerddoriaeth i'r plant sydd ar y gofrestr prydiau am ddim(PDG). Byddwn yn rhoi gwybodaeth i rieni am hyfforddiant cerddoriaeth ychwanegol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

7. Nofio

5.1 Mae'r ysgol yn trefnu gwersi nofio i bob plentyn ym M1 3. Bydd y rhain yn digwydd yn ystod oriau ysgol ac maent yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Ni fyddwn yn codi tâl am y gweithgaredd hwn. Byddwn yn hysbysu rhieni pryd y caiff y gwersi hyn eu cynnal a gofynnwn i rieni am eu caniatâd ysgrifenedig er mwyn i'w plant gymryd rhan mewn gwersi nofio.

8. Gweithgareddau allan o oriau ysgol

Cynnigir weithgareddau ychwanegol gan yr ysgol fel Pêl Droed, Pêl Rwyd, Clwb Pêl Fâs, Clwb Lles, Clwb Rygbi, Gwyddoniaeth, Ffrangeg/Sbaeneg, Drama, PBuzz, Côr. Y staff sydd yn rhedeg ac yn trefnu'r sesiynau hyn - weithiau gyda help pobl o'r tu allan i'r ysgol. Ni fyddwn yn codi tâl am y gweithgareddau yma.

Cynhelir clwb Dawns gan gwmni Dance Fi. Mae'r Cwmni yn codi tâl am y clwb yma ac yn llythyru y rhieni gyda gwybodaeth am y clwb a'r costiau.

Gall rhai gweithgareddau ddigwydd ar adegau sydd yn digwydd cyd-daro gyda chychwyn neu ddiwedd y diwrnod ysgol ac mae gan y Pennaeth yr hawl i benderfynu a ddylid codi tâl amdanynt ai peidio.

O dro i dro gellir cynnal cyngherddau gydag elfen o godi arian ynghlwm wrthynt. Mater i'r Pennaeth yw penderfynu a ddylid codi tâl am ddigwyddiad o'r fath.

9 Codi tâl am ddefnyddio Adeilad Ysgol

Ni ellir defnyddio cyllideb yr ysgol i sybsideiddio gweithgareddau heblaw ysgolion, a rhaid i ddefnydd cymunedol yr ysgol o leiaf dalu cost gosod yr ysgol i grwpiau cymunedol. Mae'r taliadau a bennir gan yr ysgol yn talu cost agor yr ysgol, gan gynnwys cost amser gofalwr a chyfleustodau.

Y taliadau i'w codi o logi adeilad ysgol yw:

Playworks Company ar gyfer llogi neuadd ysgol, 3 ystafell ddosbarth, cegin, iard ysgol a defnyddio llungopiwr ar gyfer y Clwb ar ôl Ysgol = £ 120 yr awr

Llogi ystafell ddosbarth neu neuadd ysgol = £ 20 yr awr

10 Codi Tâl (yn gyffredinol)

Caiff pob tâl am unrhyw weithgarwch ei gyfrifo'n unigol yn erbyn y gweithgarwch a'r cyllid angenrheidiol. Bydd y tâl yn cynnwys costau cludiant, prydau bwyd, amser staff, yswiriant, cyflenwi a gwasanaeth yn berthynol i'r gweithgarwch.

Gall tâl gynnwys lwfans am gost staff ond dim ond lle mae hyn ar wahân i'w rhwymedigaethau addysgu.

Mae incwm ac arian codi tâl yr ysgol yn rhan o weithdrefnau archwilio'r AALI i sicrhau cywirdeb ac atebolrwydd

Mater i'r Pennaeth yw penderfynu ar gymorth ariannol i ddisgyblion unigol

Bydd yr ysgol yn codi tâl am unrhyw arholiadau allanol, yn cynnwys unrhyw arholiad y mae'r disgybl wedi methu â'i gwblhau am unrhyw reswm.

Bydd yr ysgol yn codi tâl am gyhoeddiadau yn unol â'r drefn a nodir yn y ddogfen Trefn ar gyfer Cyhoeddiadau yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddhau Gwybodaeth 2000.

Mae unrhyw gyfeiriad uchod at 'Y Pennaeth' i gynnwys y Dirprwy Bennaeth ar adegau ac mewn amgylchiadau sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gymryd drosodd rôl a chyfrifoldebau'r Pennaeth.

Dyddiad cymeradwyo'r polisi: _____

Dyddiad yr adolygiad polisi: _____

Polisi wedi'i gymeradwyo: *Jennifer Williams*

(Cadeirydd y Corff Llywodraethol)

(Pennaeth)